
# heddwch

gaeaf 1999-2000
rhif 21
am ddim (neu gyfraniad)

cylchgrawn CND Cymru


# O Ddiwylliant Rhyfel a Thrais




graffig: Len Minnik/IFOR

# I Ddiwylliant o Heddwch heb Drais?

**y tu fewn:**
**maniffesto heddwch**
**dyfarniad diarfogwragedd Trident Ploughshares**
**dechreuad newydd i Greenham**
**Ray Davies yn mynd â thedi bêr Mark Thomas i Irac**

Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw

## Golygyddol

Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi datgan y bydd degawd cyntaf canrif gyntaf y trydydd mileniwm yn 'ddegawd diwylliant o heddwch heb drais i blant y byd".

Mae'n siwr y bydd cwestiynau'n cael eu gofyn am natur 'diwylliant heddwch', yn enwedig mewn cymdeithas - hyd yn oed os nad oes trais o fewn ein bywydau beunyddiol lle mae'n difaterwch yn cynnal breichiau'r wladwriaeth wrth iddi baratoi ar gyfer llofruddio diwahân a dinistr torfol. Mae diffyg dicter y cyhoedd a'r cyfryngau, gyda rhai eithriadau nodedig, ynglyn â bomio dinasyddion cyffredin yn Iwgoslafia ac Irac, yr arian budr sy'n cael ei wneud mewn 'ffeiriau' arfau Prydeinig, a dal i werthu arfau i Indonesia ar yr unfed awr ar ddeg, yn awgrymu ein bod yn byw mewn diwylliant sy'n derbyn trais heb arswydo at ein rhan ynddo. Ledled y byd, mae'r parodrwydd i dderbyn trais a diwylliant rhyfel fel pe bai'n cynyddu.

Wrth i ni ddod at derfyn y ganrif hon, mae'n hawdd teimlo nad yw eangfydu a thwf pwer preifat a chorfforaethol yn y byd, lledaeniad niwclear, trais, anghyfiawnder, trachwant, llygru'r amgylchedd ac ofn yn ymddangos yn ymborth addas i 'feithrin' heddwch.

Mae angen darbwyllo pobl y byd mai nhw sy'n rheoli eu tynged eu hun, y dylid penderfynu ar sail foesol, a bod technoleg yno i'n gwasanaethu, nid ein rheoli. Mae ein llywodraeth a'r cyfryngau yn ceisio darbwyllo'r cyhoedd fod gweithredoedd a orfodir arnom yn weithredoedd yr ydym yn dymuno eu cyflawni.
Fodd bynnag, os ydym yn gobeithio ac yn pryderu o gwbl, mae'n gyfrifoldeb arnom i weithredu er gwaetha'r anawsterau. Mae buddugoliaeth menywod Trident Ploughshares mewn llys barn yn yr Alban yn enghraifft odidog a chalonogol o bwer y gwirionedd, dewrder a gonestrwydd. Nid breuddwydwyr mo Angie, Ulla ac Ellen, ond pobl sy'n wynebu realaeth. Roedd eu traed ar y ddaear. Addysgodd y menywod eu hunain a gweithredu'n onest ar sail gwirionedd yr hyn roedden nhw wedi ei ddysgu. Chawson nhw ddim o'u 'haddysg' heddwch drwy sefydliadau; canlyniad awydd am gael gwybod beth oedd yn digwydd a gofyn cwestiynau ydoedd. Mae'n ddyletswydd arnom ninnau i gwestiynu ac annog ein plant i gwestiynu. Bydd y flwyddyn 2000 yn flwyddyn o Addysg a Dim Trais - nid yn unig i sefydliadau addysg ond i bob un ohonom.

Yng Nghymru, mae Cynefin y Werin y mae CND Cymru'n rhan ohono, yn mynd i fabwysiadu "Diwylliant o Heddwch heb Drais" fel ei thema ar gyfer 2000. Gobeithiwn hyrwyddo pob math o addysg o blaid heddwch ac yn erbyn trais, o blaid dealltwriaeth ryngwladol, ac o blaid cyfiawnder i bobl a'r amgylchedd yn ein gwlad. Yn sicr, fe gymer hynny fwy na degawd, ond fydd na ddim dyfodol i'r byd heb hynny.

*Jill Stallard*

## Trident Ploughshares 2000

# Cyfiawnder yn Greenock!

Ddydd Iau 21 Hydref 1999, cyfarwyddodd y Siryf Margaret Gimblett y rheithgor yn Llys Siryf Greenock i gael Angie Zelter, Ellen Moxley ac Ulla Roder yn ddieuog. Roedd y tair wedi eu cyhuddo o achosi gwerth £80,000 o ddifrod i "Maytime", "ysgraff ymchwil acwstig" yn gysylltiedig â Trident ar Loch Goil, yn ystod gweithred ddiarfogi Ploughshares 2000 ym mis Mehefin eleni. Roedd yr achos wedi para 18 dydd. Roedd y menywod wedi treulio pum mis yn y ddalfa.

# Hawl i Bawb Hela Trident

Prin ei bod hi'n syndod mai canlyniad achos llys Greenock yw'r peth pennaf yn ffurfafen Trident Ploughshares ar y foment. Roedd Angie Zelter, Ellen Moxley ac Ulla Roder wedi mynd ar fwrdd y Maytime ym mis Mehefin eleni a chlirio ei labordy, gan daflu cyfrifiaduron ac offer arall i ddyfnderoedd Loch Goil. Beth sydd mor gyffrous yw nid yn unig eu bod wedi eu cael yn ddieuog ond sut ddigwyddodd hynny. Cyfarwyddodd y Siryf Margaret Gimblett y rheithgor i'w cael yn ddieuog ar sail y ffaith na allai hi ganfod fod gan y menywod unrhyw fwriad troseddol. Roedd ei dyfarniad yn cynnwys y geiriau cyffrous:


*"Rhaid i mi ddod i'r casgliad fod y tair a gyhuddwyd, ynghyd â llawer o bobl eraill, â chyfiawnhad dros feddwl fod Prydain Fawr, yn y defnydd a wna o Trident, nid y ffaith ei bod yn berchen arno, ond drwy'r defnydd a wneir o Trident a'i leoliad, a hynny ar adegau o aflonyddwch mawr, ynghyd â pholisi o danio gyntaf, ac yn niffyg unrhyw awgrym gan unrhyw un o swyddogion y llywodraeth bryd hynny neu nawr fod defnydd o'r fath yn dod o fewn unrhyw un o'r categorïau caeth a awgrymwyd yn nyfarniad y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol ... y gallai'r bygythiad, neu'r defnydd gael ei ddehongli fel bygythiad, ac yn wir, mae eraill wedi ei ddehongli fel bygythiad, ac yn hynny o beth, mae'n drosedd yn erbyn cyfraith ryngwladol a chyfraith arferol. Roedd y tair o'r farn, os yw Trident yn anghyfreithlon, yna, yn wyneb natur arswydus arfau niwclear, ei bod yn ddyletswydd arnyn nhw o safbwynt y gyfraith ryngwladol i wneud pa beth bychan bynnag a fedrent i atal lleoli a defnyddio arfau niwclear mewn sefyllfaoedd y gellid eu dehongli fel bygythiad."*

Gellir crynhoi effaith y dyfarniad fel: *"Mae bygwth ag arfau niwclear yn anghyfreithlon. Mae Prydain yn bygwth â Trident. Felly, hawl i bawb hela Trident."*

Mae oblygiadau ceisio datrys y dryswch niwclear yn anferthol. A allai hyn olygu y bydd Senedd yr Alban yn datgan fod Trident yn anghyfreithlon (mae gan y Senedd bwer mewn materion cyfreithiol) a mynnu ei fod yn cael ei symud o'r Alban? Pe bai hynny'n digwydd, byddai'n golygu fod yn rhaid ei symud allan o Brydain yn llwyr, oherwydd does unlle arall y gallen nhw roi'r peth ac allen nhw ddim fforddio costau anferth creu sefydliad newydd iddo mewn man arall. Beth wedyn fyddai'n digwydd i'r cysylltiadau traws-Iwerydd sy'n caniatáu i ni gyfeillachu â'r UD ar y Cyngor Diogelwch yn rhinwedd ein harfau niwclear?

Mae'r Arglwydd Adfocad wedi penderfynu cyfeirio'r mater at yr Uchel Lys. Mae'r ddedfryd yn ddilys, ond mae'n gofyn am eglurhad cyfreithiol. Mae hwn yn newyddion da, sy'n rhoi cyfle arall i ni ddinoethu Trident yn y llys a ger bron y cyhoedd.
Dyma anogaeth ychwanegol hefyd i ddiarfogwyr sy'n gweithredu'n uniongyrchol. Mae "Hawl i Bawb Hela Trident" wedi bod yn arwyddair i TP eisoes ond mae'n gryfach fyth nawr. Bydd llawer mwy ohonom wrth i fwyfwy o bobl sylweddoli fod diarfogi heddychlon a di-drais yn gwbl gyfreithlon. A fyddwn ni byth yn anghofio fod y bygythiad yn dal yno, fod gwaith hanfodol gennym i'w wneud o hyd. Mae rhagor o weithredu ar y gweill, beth ohono ar yr un patrwm â gweithred Loch Goil.

Bydd mwy o bobl yn barod i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, o rwystro'r ffordd i bethau mwy difrifol. Y penwythnos gweithredu mawr nesaf fydd Chwefror 11eg-13eg yn Coulport a'r mis nesaf, bydd Aldermaston yn ganolbwynt protest fawr. Ond does dim rhaid i chi ddisgwyl tan hynny. Ffoniwch am becyn rhagarweiniol a manylion am y cyfle hyfforddi nesaf. David Mackenzie Trident Ploughshares 2000




**heddweithredu**: am wybodaeth bellach, ffoniwch David Mackenzie ar (01324) 889744 neu ymwelwch â gwefan Trident Ploughshares 2000: www.gn.apc.org/tp2000/





*Ellen,Ulla ac Angie : eu cael yn ddieuog*

# Jamio yn Siapan

## Ymweliad â Siapan ar gyfer cwrdd coffa Hiroshima/Nagasaki 1999

Cefais wahoddiad gan Gensuikyo i gynrychioli CND eleni ac annerch Cynhadledd y Byd yn erbyn Bomiau A ac H ar y 6ed a'r 9fed o Awst. Yn ddi-os, dyma un o'r ymweliadau CND mwyaf cofiadwy i mi fod arno erioed.

Roedd yr achlysur yn well byth am ei fod yn gynhadledd ryngwladol fel y gallem gwrdd nid yn unig â llu o weithredwyr heddwch a gwrthniwclear o Siapan, ond cyfeillion o bedwar ban hefyd - India, Sri Lanka, Tsieina, Groeg, UDA, Awstralia, Seland Newydd, Ynysoedd y Philipinos, ac eraill. Cawsom y fraint hefyd o glywed tystiolaeth yr Hibakusha, y goroeswyr sydd bob amser mor urddasol, byth yn chwerw - yn ogystal â rhai sydd wedi dioddef profion niwclear o Ynysoedd Marshall, Kazakhstan a milwr o'r UD a fu ar ynys Bikini. Roedden nhw oll yn ddewr ac yn benderfynol, er gwaetha'r niwed ofnadwy iddyn nhw a'u teuluoedd, i lefaru wrth y byd ac erfyn ar bob llywodraeth i ddiarfogi a rhoi'r gorau i ddatblygu arfau niwclear. Fe'n hatgoffwyd gan y Hibakusha, a oedd yn cynnwys siaradwyr nid yn unig o Siapan ond o Korea hefyd (roedd rhai Koreaid yn byw fel llafurwyr dan orfodaeth yn y dinasoedd ym 1945), fod 54 blynedd wedi mynd heibio erbyn hyn, ac y bydden nhw i gyd yn farw cyn bo hir, a chyfrifoldeb cenhedlaeth iau fyddai parhau i gyhoeddi'r neges.

Y neges wleidyddol i bawb oedd yn bresennol oedd pryder am dra-arglwyddiaeth yr UD. Yn union fel y mae'r UD yn tra-lywodraethu'n filwrol ar NATO a rhanbarth Ewrop-Gogledd Môr Iwerydd, yr un patrwm a welir yn rhanbarth Asia/y Môr Tawel. Bydd y canllawiau newydd ar gyfer Cydweithrediad Amddiffyn yr UD/Siapan yn rhoi tragwyddol heol i'r UD i ddefnyddio ei wersylloedd milwrol yn Siapan 'ar adegau o argyfwng'. A phwy fydd yn penderfynu ei bod hi'n argyfwng? Llywodraeth yr UD. Mae'r werth cofio fod Siapan mewn safle unigryw yn y byd gyda'i chyfansoddiad "di-ryfel"; fel y dywed Erthygl 9: *'Gan ddyheu yn ddiffuant am heddwch rhyngwladol yn seiliedig ar gyfiawnder a threfn, mae pobl Siapan yn ymwrthod am byth â rhyfel fel hawl sofran y genedl, ac â bygythiad neu ddefnydd trais fel modd o ddatrys gwrthdaro rhyngwladol.'*


Yna, mae'r posibilrwydd brawychus y gellid defnyddio'r gwersylloedd a'r porthladdoedd ar gyfer ymosodiadau niwclear. Fel y dywedodd, Hirosha Suda, Ysgrifennydd Cyffredinol Pwyllgor Heddwch Siapan, *'Meddyliwch fod Siapan, yr unig wlad a fomiwyd gan fomiau atomig, wedi cael ei throi'n wersyll cyrch ar gyfer lluoedd niwclear yr UD ac, yn waeth, fod fomiwyd gan fomiau atomig, wedi cael ei throi'n wersyll cyrch ar gyfer lluoedd hunan-amddiffyn Siapan yn gorfod cymryd rhan mewn cyd-ymosodiadau ar ôl y gwersi peonus a ddysgwyd o ryfel ymosodol Siapan yn y gorffennol. Rhaid atal y fath sefyllfa.'*

Ond calondid i ni oll oedd cryfder y mudiad heddwch yn Siapan. Mae Gensuikyo yn gweithio'n llwyddiannus ymhlith pobl gyffredin. Er enghraifft, mae ymgyrchoedd egnïol yn cael eu trefnu'n lleol yn erbyn llongau pwer-niwclear neu niwclear arfog yr UD sy'n defnyddio'r porthladdoedd.

Gwnaeth y nifer o bobl ifanc yn y gynhadledd gryn argraff arnom a gwneud i ni lawenhau. 'Cipluniau' fydd yn aros yn y cof: merch ysgol uwchradd 16 oed yn traddodi araith hyderus yn Saesneg wrth gannoedd o gynrychiolwyr, yn apelio am osod cerfluniau heddwch plant ledled y byd, neu ddau fyfyriwr ifanc yn gofyn i ni fynd i'w noson 'Jamio dros Heddwch' yn Nagasaki (a ddenodd ryw 2,000 o bobl). Trefnodd Cymdeithas Fenywod Newydd Siapan gyfarfod ar gyfer mwy na 2,000 o fenywod (a rhai dynion!) lle cawsom gymysgedd o ganu a dawnsio, tystiolaethau angerddol ac areithiau gwleidyddol.

Mae pobl Siapan yn trysori eu cysylltiadau â'r Cymry. Yn eu papur newydd ar ddydd Hiroshima, roedd llun o seremoni yng Nghymru mewn adroddiad am weithredoedd ledled y byd. Ar ôl bod yng nghwmni grwp mor gynnes a chroesawgar, gyda'r fath straeon deifiol am wir ystyr arfau niwclear, daethom ni o Brydain oddi yno yn benderfynol o barhau i gyrchu'n nod o fyd heb arfau niwclear.


*Rae Street, Is-gadeirydd CND Prydeinig*



*Rae Street yn Nagasaki*

# Diwylliant Heddwch!

*Rhaid i'r flwyddyn 2000 fod yn ddechreuad newydd i ni i gyd. Gyda'n gilydd gallwn drawsnewid diwylliant o ryfel a thrais yn ddiwylliant o heddwch a dim trais. Mae hyn yn mynnu cyfraniad gan bawb. Mae'n rhoi i'r to ifanc a chenedlaethau i ddod werthoedd a all eu hysbrydoli i lunio byd o urddas a chytgord, byd o gyfiawnder, cefnogaeth, rhyddid a llwyddiant. Mae diwylliant heddwch yn ei gwneud datblygu mewn modd cynaliadwy, diogelu'r amgylchedd ac ymgyflawniad personol pob bod dynol yn bosibl.* (Maniffesto 2000)




Mae hon wedi bod yn ganrif lle cyflawnwyd pethau rhyfeddol ond sydd eto wedi bod yn dyst i ryfel, trais a hil-laddiad ar raddfa ddigyffelyb; tlodi systemaidd; eithrio cymdeithasol-economaidd, diwylliannol a hiliol eang; a chyflafan amgylcheddol sy'n gwaethygu beunydd. Mae dylanwad diwylliant trais mewn cymdeithas yn glir drwy drychinebau'r ganrif, yn amlycach nag erioed ar derfyn y ganrif yma. Wrth i'r mileniwm ddod i ben, gallwn ddewis cefnu ar ddiwylliant o ryfel a chofleidio diwylliant o heddwch. Mae diwylliant o'r fath wedi ei wreiddio yn nelfrydau dulliau di-drais o atal gwrthdaro a chymodi. Mae'n ffordd o feddwl ac ymwneud yn gymdeithasol sy'n seiliedig ar oddefgarwch, cydgadernid, a rhannu.

## Blwyddyn Ryngwladol Diwylliant Heddwch

Mae Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig wedi datgan mai 2000 fydd Blwyddyn Ryngwladol Diwylliant Heddwch. Yng Nghymru, bydd y "Flwyddyn Ryngwladol" yn cael ei lansio ddydd Llun 6 Rhagfyr. Gan gydnabod pwysigrwydd bod â rhaglen o Ddiwylliant Heddwch, mae'r CU wedi datgan y bydd y degawd 2001-2010 yn "Ddegawd Rhyngwladol Diwylliant o Heddwch heb Drais i Blant y Byd".

## Meithrin heddwch:addysg

Byddai Diwylliant Heddwch yn ceisio atal gwrthdaro marwol drwy gydnabod materion sy'n uniongyrchol gysylltiedig â thrais, ac ymdrin â nhw: eithrio, gormes ac anghyfiawnder, cenedlaetholdeb ffanatigaidd, tlodi enbyd a niwed i'r amgylchedd. Mae datrys y problemau hyn yn dibynnu ar ddialog, negydu, cyfrifoldeb a chyfryngu, yn hytrach na bygythiadau, trais a rhyfel. Nod y rhaglen hon yw gweithio'n galetach i greu cwricwlwm rhyngwladol ar gyfer heddwch a dealltwriaeth ryngwladol ar sail egwyddorion cyfiawnder a chymuned. Byddai'r gyfundrefn yn cynnwys pob mater yn ymwneud â heddwch, hawliau dynol, lluosogyddiaeth diwylliannol a democratiaeth ar bob lefel yn y gymuned yn arwain at ymwybyddiaeth, gwybodaeth a gweithredu effeithiol.

## Mudiadau Lleol: Datganiadau Byd-eang

O'r unigolyn i'r byd cyfan, mae cymunedau dynol wedi eu cysylltu â'i gilydd gan gytundebau sy'n cydbwyso hawliau a chyfrifoldebau o safbwynt cymdogion yn ogystal ag o safbwynt y blaned a chenedlaethau i ddod. Mae'r fenter newydd hon yn gobeithio ysbrydoli pobl a mudiadau ar bob lefel, o'r unigolyn i'r gymuned ryngwladol.

## Maniffesto 2000

*"Na fyddai heddwch yn seiliedig yn unig ar drefniadau gwleidyddol ac economaidd llywodraethau yn heddwch a allai ennill cefnogaeth unfrydol barhaus a diffuant pobloedd y byd, a bod yn rhaid i'r heddwch, gan hynny, fod wedi ei seilio, er mwyn iddo beidio â methu, ar gydgadernid deallusol a moesol y ddynolryw ... Gan mai ym meddyliau dynion y mae rhyfeloedd yn dechrau, ym meddyliau dynion y mae'n rhaid codi amddiffynfeydd heddwch ..."*
(Erthygl 1, Cyfansoddiad UNESCO)

Mae Maniffesto 2000 yn gam pwysig ac mae'n agwedd allweddol o'r rhaglen Diwylliant Heddwch. Addewid ydyw, wedi ei lunio gan enillwyr Gwobr Heddwch Nobel, â'r nod o feithrin ymwybyddiaeth ac ymrwymiad unigolion i Ddiwylliant Heddwch. Mae pob llofnod ar yr addewid yn cynrychioli ymrwymiad unigolyn i'r delfrydau sydd wrth graidd Diwylliant Heddwch:

* parchu pob bywyd
* gwrthod trais
* rhannu gydag eraill
* gwrando er mwyn deall
* diogelu'r blaned
* ailddarganfod cydgadernid

Nod Maniffesto 2000 yw lledaenu delfrydau'n gysylltiedig â Diwylliant Heddwch ac annog unigolion i ddilyn y delfrydau hyn ymhellach. Nod UNESCO yw casglu 100 miliwn o lofnodion ar Faniffesto 2000 o bedwar ban y byd. Cyflwynir y llofnodion hyn i Uwch-Gynhadledd Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ym mis Medi 2000.

## Diwylliant Heddwch Cymru

**Mae Cymdeithas y Cenhedloedd** Unedig (CCU) Cymru a mudiadau heddwch/addysg heddwch eraill yng Nghymru a gwledydd eraill Prydain yn gweithio'n egnïol i hyrwyddo Diwylliant Heddwch gyda nifer o amcanion blaenoriaethol yn ymwneud ag addysg a pholisi ar gyfer Blwyddyn Ryngwladol Diwylliant Heddwch:

## Blaenoriaethau:

1. Maniffesto 2000 yw prif ffocws rhaglen Diwylliant Heddwch. Yr her i CCU yw casglu miliwn o lofnodion yn y DU.

2. Rhaglenni addysgol yn yr ysgolion yn ymwneud â Diwylliant Heddwch. Mae CCU yn trefnu digwyddiadau i ysgolion wedi eu modelu ar y Cenhedloedd Unedig, ar sail ranbarthol, yn arwain ar Fodel Gynulliad CU i'r DU. Nod y rhain fydd gwneud pobl ifanc yn fwy ymwybodol a pharod i drafod y Cenhedloedd Unedig a'r materion o bwys byd-eang fydd yn ein herio yn yr 21ain ganrif.

3. Dinasyddiaeth fyd-eang o fewn y Cwricwlwm Addysg. Mae CCU yn gweithio ochr yn ochr â'r Cyngor Addysgu mewn Dinasyddiaeth Fyd-eang (CADF) i ddarparu rhaglenni effeithiol ar Ddinasyddiaeth, a fydd yn rhan o'r Cwricwlwm Addysg o fis Medi 2000.

4. Ymgyrch Ddiarfogi'r DU: cyfle i'r cyhoedd a gwleidyddion i ailystyried yr adnoddau anferthol sydd yn dal i gael eu hymrwymo i arfau ledled y byd a'r cyfyng-gyngor moesol sy'n deillio o bolisi amddiffyn cyfoes, ac archwilio ffyrdd posibl o ddatrys y sefyllfa. Cynhelir cyfres o Wrandawiadau'r Bobl, i'w dilyn gan Sesiwn Arbennig y Bobl ar Ddiarfogi yn gynnar yn 2000.

5. Cadoediad Olympaidd: ar y cyd â'r NUT, bydd CCU yn gweithio o blaid Cadoediad Olympaidd a fyddai'n herio pob gwlad sy'n ymladd rhyfeloedd i barchu cadoediad yn ystod cyfnod yr Olympiad, fel arferai ddigwydd yn ystod y Chwaraeon Olympaidd yng Ngroeg glasurol.

Yn ystod Blwyddyn Rhyngwladol Diwylliant Heddwch, y nod yw bod yn gatalydd i ymwybyddiaeth a newid ledled y DU. Er mwyn hybu delfrydau Diwylliant Heddwch a Maniffesto 2000, mae CCU yn gwahodd unigolion a mudiadau i dorri eu llofnod ar Faniffesto 2000 a mynd ati i wneud mwy i greu Diwylliant Heddwch.
**Ymunwch â ni yn y gwaith o greu dyfodol cyfiawn!**

*Richard Jones, Canolfan Cymru dros Faterion Rhyngwladol*
**heddweithredu:** Mae Cymdeithas y Cymod yng Nghymru yn lansio 'Diwylliant Heddwch' ar Ragfyr 6ed yn y Deml Heddwch. Er mwyn cael gwybod mwy neu i ymuno â Chymdeithas y Cenhedloedd Unedig, cysyllter â Richard Jones, Canolfan Cymru dros Faterion Rhyngwladol, Y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd CF1 3AP (01222) 228549. richardjones@wcia.org.uk

# Profion niwclear: yr UD yn ymddwyn fel gwylliaid

Ym mis Hydref, roedd y ffaith i Senedd yr UD wrthod cytuno i gymeradwyo'r Cytundeb Atal Profion Cynhwysfawr (CAPC) yn ergyd aruthrol i'r broses ddiarfogi niwclear ac i argoelion heddwch yn y byd.

Y CAPC yw un o'r ddau gytundeb rheoli arfau niwclear sy'n sail i'r holl broses ddiarfogi ac atal-lledaenu. Heb gefnogaeth yr UD ni ddaw'r CAPC byth i rym. Mae'n ymddangos fod ar lawer o'r Seneddwyr ofn y byddai rhoi'r gorau am byth i'w hawl i wneud profion ffrwydron niwclear yn tanseilio safle hegemonig yr UD. Maen nhw am gadw "Trefn Newydd y Byd" yn union fel y mae, gyda'r UD ar ben y domen. Roedd Tsieina, Rwsia, India a Phakistan ymhlith llu o wledydd oedd yn aros i weld be ddigwyddai yn yr UD cyn gweithredu eu hunain. Fedrwn ni wneud dim byd nawr ond disgwyl i weld faint o wledydd eraill fydd yn dilyn llwybr yr Unol Daleithau.

Mae'r sefyllfa ym Mhakistan, sydd bellach ag arfau niwclear, yn y fantol. Mae Rwsia wedi rhybuddio Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig bod pethau'n "llithro nol i ddialog y Rhyfel Oer" rhyngddyn nhw a'r UD am fod y trafodaethau rheolaeth arfau rhyngddynt "wedi mynd i'r gors".




Mae Mr Clinton, fodd bynnag, wedi mynnu y bydd ei lywodraeth, er gwaethaf pleidlais y Senedd, yn glynu wrth ei moratoriwm ar brofion niwclear, ac mae Tsieina ac India wedi dweud y byddan nhw'n cadw at eu gair na fyddan nhw'n gwneud mwy o brofion niwclear.

Ond nid dyma'r ffordd ymlaen tuag at heddwch. Yn y pen draw, os na fydd yr UD a gwladwriaethau arfau niwclear eraill yn dechrau cymryd eu hoblygiadau diarfogi niwclear o ddifri, ac os na chytuna'r UD i atal gwaith ar systemau arfau ymosodol fel "amddiffyn taflegrau" - mae'r ymatal bregus yma, sydd ar fin y gyllell fel y mae, yn mynd i dorri lawr.

# George M.Ll. Davies 1880 - 1949


## "sant perffaith mewn uffern o fyd"

Eleni rydym yn coffáu un o'r gwyr mwyaf a welodd yr ugeinfed ganrif - George M.Ll. Davies. Gwr lluniaidd gyda phersonoliaeth gyfareddol. Treuliodd ei oes yn pregethu oferedd rhyfel. Cysegrodd ei fywyd i greu cyfeillgarwch rhwng dyn a chyd-ddyn, gwlad a gwlad, cyflogwr a gweithwr a rhwng enwadau crefyddol a'i gilydd.

Newidiodd faes ei weithgarwch rhwng banc a chymdeithas adeiladu, bugeilio defaid a throseddwyr ieuainc. Bu'n weinidog ac yn Aelod Seneddol ac yn llafurio ymysg y tlawd a'r di-waith. Rhybuddiodd y llywodraethau y buasai cytundeb heddwch dialgar Versailles yn creu tlodi, afiechyd a newyn ac yn esgor ar Ffasgaeth. Ef a gariodd delerau heddwch Iwerddon i Lloyd George. Atgoffai Bresbyteriaid y Gogledd eu bod i fod yn Gristnogion hefyd ac nad oedd credoau enwadol o dragwyddol lwys.

Trefnodd Gandhi i'w gwrdd am sgwrs cyn mynd i weld Llywodraeth Lloegr i drafod rhyddid i India. Ef oedd un o ysgrifenyddion cyntaf Cymdeithas y Cymod a chafodd ei garcharu am fynnu pregethu heddwch ynghanol y rhyfel. Cofiwn heddychwr a brwydrwr, gwerinwr ac uchelwr, gwr siriol a digalon, doniol a duwiol, arallfydol ac ymarferol. Disgrifiwyd ef gan ei gyfoeswyr fel "sant perffaith mewn uffern o fyd".

*Maldwyn Lewis*




**CD radicalaidd gan Gôr Cochion Caerdydd**

**"Goreuon Côr Cochion"**

**17 o ganeuon heddwch a rhyddid**

Sefydlwyd y côr ym 1983 pan oedd digwyddiadau yn Chile, De Affrica ac yma yng Nghymru yn mynnu codi llais sosialaidd Cymreig i brotestio. Er hynny, mae'r côr wedi cynyddu ymwybyddiaeth pobl ar y stryd tra'n casglu miloedd lawer o bunnau, gan ymgyrchu o blaid undebau llafur, hawliau dynol, ymreolaeth, heddwch â chyfiawnder, o blaid amgylchedd diogel a llawer iawn mwy o achosion yng Nghymru, gweddill Prydain, ac yn rhyngwladol.

Pris y CD yw £12.00 a £1.00 am gludiant ac mae ar gael gan B. Smith, Heol Ty'n y Graig, Llanbradach, CF 83 3LH (01222) 886113.
Beatysmith@hotmail.com Sieciau'n daladwy i "Côr Cochion Caerdydd".

# Ymgyrchu

## Hiroshima a Nagasaki: byth eto



Mae'r bobl sy'n penderfynu a rheini sydd mewn grym wedi dangos nad ydyn nhw'n gallu cymryd y cam mawr o ddychmygu byd yn rhydd o fygythiad cyson cyflafan niwclear. Rhaid dibynnu o hyd ar bobl gyffredin, anghyffredin i gofio'r hyn sy'n mynd yn fwyfwy posibl. Ym mis Awst, ym mhedwar ban y byd, trefnwyd digwyddiadau i dystiolaethu i ddioddefaint dioddefwyr y bomiau niwclear a ollyngwyd ar Hiroshima a Nagasaki ym 1945. Ymhlith digwyddiadau eraill yng Nghymru, hwyliwyd canhwyllau ar yr afon yn Nhrefdraeth, cyhoeddodd CND Aberystwyth neges o obaith a choffâd yn y papur lleol, a bu CND Abertawe ac CND Llandrindod wrthi'n plannu coed.



## Awst 6ed ym Mharc y Rhath

Diwrnod Hiroshima. Roedd y tywydd yn felltigedig. Roedden ni eisoes wedi trefnu'r cyfarfod blynyddol i goffáu'r drosedd erchyll hon yn erbyn y ddynoliaeth gan ddefnyddio'r goeden teleffon; roedd pawb wedi cael gwybod, ond pwy oedd yn mynd i deimlo fel cynnal gwylnos dawel ar lannau Llyn y Rhath a chael gwlychad at eu crwyn?

Roedd Wendy a minnau'n cofio'r ymweliad diweddar gan nifer o Hibakusha, rhai a fu byw drwy Hiroshima a Nagasaki, a'r hanesion erchyll am eu profiadau nhw, dioddefwyr ymgyrch fomio'r cynghreiriaid. Dyma benderfynu, waeth pa mor wael oedd y tywydd, fod rhaid i ni ymdrechu i fod yno.

Bum munud wedi i ni gyrraedd y llyn, dyma chwe aelod o'r Côr Cochion, George a Jeanne Crabb, a llawer o gyfeillion o Benybont, y Barri a Chaerdydd yn cyrraedd yn eu cotiau glaw. Roedd yr achlysur yn un teimladwy iawn. Canodd Côr Cochion nifer o ganeuon heddwch a rhyddid, ac roedd yn amlwg nad fi oedd yr unig un a deimlai reidrwydd mawr i goffáu'r weithred warthus ac annynol yn erbyn pobl Siapan ym 1945.

*Ray Davies*

## Cymru a Dwyrain Timor: y cysylltiad gwaedlyd

Ymgasglodd rhyw 50 aelod o Atal yr Hawks Gwynedd yn RAF Y Fali ar Ynys Môn i ymateb i'r newyddion am y lladdfa yn Nwyrain Timor. Mae'r Ymgyrch yn galw sylw at y ddolen gyswllt rhwng RAF Y Fali, lle caiff peilotiaid eu hyfforddi i hedfan jetiau Hawk. Dosbarthwyd taflenni i'r gweithwyr milwrol a sifil yn y maes awyr.

Mae awyrennau Hawk, a adeiladwyd gan British Aerospace, wedi cael eu gwerthu i awdurdodau milwrol Indonesia drwy drefniant a warantwyd yn ariannol gan y llywodraeth Brydeinig (â'i "pholisi tramor ethegol" bondigrynbwyll). Fel rhan o'r pecyn, mae peilotiaid o Indonesia wedi cael eu hyfforddi i hedfan y jetiau Hawk yn RAF Y Fali, gan wibio'n isel dros gefn gwlad Cymru. Yn y brotest, safodd yr ymgyrchwyr, a gafodd gefnogaeth gwleidyddion Cymreig blaenllaw ac arweinwyr yr eglwysi a llywodraeth leol, mewn distawrwydd i gofio dioddefwyr Dwyrain Timor. Mewn datganiad, dywedwyd fod y penderfyniad ar y 12fed o Fedi i ohirio gwerthu arfau gan Brydain i Indonesia am bedwar mis yn rhy ychydig ac yn rhy hwyr. Mae'r modd mae'r llywodraeth a'r cyfryngau wedi trin llywodraeth Indonesia yn y misoedd diwethaf wedi bod yn gyferbyniad hallt i'r modd y cafodd llywodraethau fel rhai Iwgoslafia ac Irac eu pardduo. Prin ei bod hi'n gysur i bobl Dwyrain Timor, nac i ymgyrchwyr fod gweithredoedd uniongyrchol "Atal Allforio Arfau i Indonesia" blaenorol wedi eu cyfiawnhau bellach. Mae AS Cwm Cynon, Ann Clwyd yn cyfaddef fod honiad y llywodraeth fod ganddi bolisi tramor ethegol yn 'bur dila' erbyn hyn.

## Trecwn - tomen wastraff niwclear?

Mae dyfodol cyn-Storfa Arfau'r Llynges yn sir Benfro yn dal yn ansicr. Mae'n ymddangos yn fwyfwy annhebyg y caiff y 58 siambr storio danddaearol eu defnyddio fel canolfan drwsio injans awyrennau, gan ddarparu hyd at 500 o swyddi, fel a addawyd. Aeth blwyddyn heibio erbyn hyn er i'r cwmni a brynodd y safle, Omega Pacific, gynnig y siambrau fel storfan gwastraff niwclear lefel-isel a lefel-ganolig.

Gallai unrhyw benderfyniad ynglyn â hyn fod yn gynsail i storio gwastraff o'r fath mewn safloeoedd eraill yng Nghymru. Mae gwrthwynebiad anferth i'r cynlluniau storio gwastraff niwclear. Byddai storio ar safloedd newydd fel Trecwn yn golygu y byddai angen llwybrau cludiant newydd yn yr awyr, ar fôr ac ar ffyrdd a rheilffyrdd ar draws Cymru ac o'i chwmpas.

Yng nghyfarfod blynyddol Fforwm yr Ardaloedd Di-niwclear ym mis Hydref, dyweddodd y Cynghorydd Luke, Wdig, fod Geoffrey Beveridge, Cyfarfwyddwr Dadgomisiynu BNFL, wedi datgan yn bendant nad oedd gan BNFL ddiddordeb mewn storio gwastraff niwclear yn Nhrecwn.

Mae Richard Edwards, AC Preseli wedi cyflwyno Datganiad o Farn (DoF) i'r Cynulliad sydd wedi cael ei gefnogi gan fwyafrif o 32 Aelod o'r Cynulliad. At hynny, mae'r rhan fwyaf o'r Cabinet wedi dynodi eu cefnogaeth ond nid yw'r drefn yn caniatáu iddyn nhw arwyddo DoF. Testun pryder mawr i Richard Edwards yw'r ffaith y gall cwmni gymryd camau cynllunio ar hap sy'n andwyo ardal gyfan heb ddim posibilrwydd o iawndal i'r bobl yr effeithiwyd arnyn nhw. Mae'n ystyried galw cyfarfod traws-bleidiol yn y Cynulliad i arddangos y gwrthwynebiad sydd i gynlluniau Omega Pacific. Dyma gynnwys y Datganiad o Farn:

*"Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn datgan ei wrthwynebiad llwyr i'r cynnig gan gwmni preifat i storio gwastraff niwclear ar gyn-safle'r Llynges yn Nhrecwn, Sir Benfro. Byddai hyn yn drychinebus o andwyol i economi ac amgylchedd sir Benfro ac yn creu peryglon posibl mawr i les pobl gorllewin Cymru a thu draw."*



**heddweithredu:**
Bwriedir cynnal wythnos weithredu, cysyllter â Chynghrair Wrth-Niwclear Sir Benfro (Martin John) (01348) 874199 neu Paul Hawkes, CND Teifi/Preseli (01239) 614856.

## Cludo deunydd niwclear ar Fôr Iwerddon

Mae CND Teifi/Preseli yn lobïo'r Cynulliad Cenedlaethol am wahardd llongau rhag cario llwythi niwclear ar Fôr Iwerddon. Roedd y digwyddiad ym mis Mai pan aeth cargo o wraniwm wedi ei gyfoethogi ar dân ger glannau Cymru yn tanlinellu peryglon cludo nwyddau o'r fath. Mae Cynghorau Gwynedd a Cheredigion yn cynyddu'r pwysau ar y llywodraeth i beidio â chaniatáu i'r gwaith prosesu MOX yn Sellafield ddechrau gweithredu a fyddai'n golygu fod mwy o lwythi o ddefnyddiau niwclear yn cael eu cludo drwy Fôr Iwerddon. Meddai Paul Hawkes o Landudoch: *"Byddai canlyniadau damwain niwclear long yn arswydus . . . gwell fyddai sicrhau na all y peth fyth ddigwydd, felly gwahardd llongau niwclear fyddai orau."*
**heddweithredu:** chwaraewch ran yn yr ymgyrch, cysylltwch â Paul, CND Teifi/Preseli (01239) 614856.

## Trawsfynydd - rhaid trafod materion cyhoeddus yn gyhoeddus

Mae Cynghrair Wrth-Niwclear Cymru (CWNC) wedi darganfod ei bod yn bosibl fod rheolaethau newydd a'r bwriad o ddwyn dadgomisiynu niwclear i sylw'r cyhoedd yn cael eu camddefnyddio gan BNFL Magnox er mwyn osgoi gorfod amddiffyn ei hun mewn ymchwiliad cyhoeddus. Mae'r Gyfarwyddeb Ewropeaidd (97/11/EC) a ddaeth i rym ym mis Mawrth eleni yn dweud na ddylai "datblygiad i ddiben datgymalu neu ddadgomisiynu gorsaf ynni niwclear neu adweithydd arall gael ei drin fel datblygiad". Os nad oes angen caniatâd cynllunio, yna ni fyddai'r rheolaethau Prydeinig mewn grym ac fe gollid holl bwrpas 97/11/EC.

Gallai BNFL Magnox benderfynu tynnu eu cais cynllunio ar gyfer "Storfa Ddiogel" Trawsfynydd yn ôl ac yna, o dan y rheolaethau newydd, y tu ôl i ddrysau caeëdig, gwneud cais i'r Arolygaeth Sefydliadau Niwclear am ganiatâd ar gyfer eu cynigion. Dywed CWNC y byddai hynny'n annemocrataidd ar y naw ac ni fyddai'r cyhoedd yn parchu'r fath benderfyniad. Byddai tynnu cais yr oedd y Cynulliad Cenedlaethol yn meddwl ei fod yn mynd i benderfynu yn ei gylch yn ôl yn sarhad ar y Cynulliad. Byddai'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau wedyn fod pobl Cymru yn gweithredu'r Gyfarwyddeb Ewropeaidd yn uniongyrchol.
**heddweithredu:** cysyllter â Hugh Richards, CWNC, Blwch SP 1, Llandrindod LD1 5AA, Powys (01982) 570362 hughrichards@gn.apc.org

## Helen John:peintio ac addurno anghyffredin!



Fel y gwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn, mae'n anodd cadw ar drywydd Helen! Wrth i ni fynd i'r wasg, mae newydd gael ei gollwng ar fechnïaeth ar ôl pum wythnos yn y ddalfa yng ngharchar Holloway. Fe'i cyhuddwyd o achosi gwerth £35,000 o ddifrod troseddol i Dai'r Senedd yn Llundain drwy beintio *"Ban Trident"*, *"No Star Wars"* a *"Ban Depleted Uranium"* ar wal ger y fynedfa gyhoeddus. Mae hefyd wedi ei chyhuddo o beintio *"Recognise International Humanitarian law"*, *"Ban Trident"*, *"Ban depleted Uranium"*, *"Do Not Collude with Genocide"*, *"Resist Nuclear American Take-Over (NATO)"* a *"Free Angie, Ellen and Ulla, TP2000 activists"* ar yr Uchel Lys yng Nghaeredin. Trowyd drysau copr yr Uchel Lys yn symbolau menywod a symbol CND. Honnir hefyd fod Helen wedi peintio *"No Blood on Scottish Hands"*, *"Resist War Crimes"* a *"Ban Trident"* ar Ganolfan Ymwelwyr Senedd yr Alban.

**heddweithredu:** am y diweddaraf ar achosion llys a/neu i gefnogi Helen, cysylltwch â Cat Euler, Cat@freewoman.freeserve.co.uk neu Helen, 26 The Oval, Otley LS21 2ED, Swydd Efrog (01943) 468593.

## Aldermaston-ymgynghori â'r cyhoedd

Am y tro cyntaf erioed, ymgynghorwyd â'r cyhoedd ynglyn â gollwng deunydd ymbelydrol i'r amgylchedd o'r Sefydliadau Arfau Atomig yn Aldermaston a Burghfield. Ar hyn o bryd, gollyngir gwastraff ymbelydrol hylif yn cynnwys plwtoniwm ac wraniwm wedi ei gyfoethogi o Aldermaston i mewn i afonydd Tafwys a Kennet. Y llynedd, datgelodd SAA Aldermaston ei fod yn bwriadu gollwng un llwyth o ddwr tritiadus yn cynnwys biliwn becquerel o ymbelydredd i mewn i afon Tafwys. Mae'r gweithredwyr wedi tynnu'r cynnig hwnnw yn ô bellach yn sgîl protest faith gan y cyhoedd ac awdurdodau lleol. Disgwylir yn awr yr ymdrinir â'r gwastraff ar y safle drwy anweddu sydd wedi esgor ar bryderon lleol am ollwng fwy o dritiwm i'r awyr.



Mae CND yn galw am ymchwiliad cyhoeddus brys i iechyd a diogelwch yn Aldermaston wedi i'r ffaith gael ei datgelu fod dwr daear y safle wedi ei lygru'n ddifrifol â thritiwm a bod wyneb y safle wedi ei lygru â phlwtoniwm ac wraniwm, a bod peth o hwnnw wedi golchi ymaith mewn glaw trwm. Rhwng 1984 a 1996, bu pedair damwain wahanol gyda deunydd yn gollwng o storfeydd plwtoniwm. Ni chynhwyswyd y rhain na damweiniau eraill yn yr adroddiadau damweiniau "cynhwysfawr" a roddwyd i'r pwyllgor cydgysylltu lleol.

Mae'r safle yn dal i ddefnyddio storfeydd gwastraff niwclear o'r 1950au a does dim digon o le yno iddo allu delio â gwastraff niwclear pellach a fydd yn deillio o'r gwaith.

**heddweithredu:** Y dyddiad cau ar gyfer cyfrannu i'r broses ymgynghori oedd Tachwedd 5ed. Am fwy o wybodaeth am Aldermaston a beth y gallwch chi ei wneud, cysylltwch â Di Macdonald, 31 Westwood Road, Southampton SO17 1DN (01703) 554434 nipdimac@gn.apc.org

## Cynhadledd CND Prydeinig 1999

Yng Nghynhadledd Flynyddol CND Prydeinig ym mis Medi, dangosodd adroddiadau fod CND yn dal i fod yn fudiad sy'n weithgar ar lefel y gymuned, yn gweithio i wneud pobl yn fwy ymwybodol o beryglon arfau niwclear a militariaeth. Cymeradwywyd cynigion ar y materion a ganlyn:
**Arfau yn y Gofod:** penderfynwyd ymgyrchu i "Gadw Gofod i Heddwch";
**NATO:** galwad gref am i Brydain gefnu ar unwaith ar gynghrair niwclear NATO;
**Arfau Wraniwm Hesb:** galwyd am atal cynhyrchu, allforio a defnyddio arfau o'r fath;
**Gwrthdaro Arfog:** cytunwyd y dylai CND bob amser danlinellu'r posibilrwydd y gallai gwrthdaro arfog ddatblygu'n rhyfel niwclear, a gweithio i hyrwyddo dulliau anfilwrol o ddatrys gwrthdaro gyda mwy o gefnogaeth i'r Cenhedloedd Unedig a'r Sefydlaid dros Ddiogelwch a Chydweithrediad yn Ewrop;
**Iwgoslafia:** condemniwyd bomio Iwgoslafia gan NATO, a galwyd ar y llywodraeth Brydeinig i ddarparu cymorth ariannol a dyngarol i Iwgoslafia ar unwaith, dileu sancsiynau economaidd, gwrthwynebu ymosodiadau pellach ac, yn lle hynny, hyrwyddo dulliau heddychlon o ddatrys y gwrthdaro o dan adain y CU.

CND

Mae adroddiad llawn ar y Gynhadledd Flynddol ar gael gan CND Prydeinig, 162 Holloway Road, Llundain N7 8DQ (0171) 700 2393 cnd@gn.apc.org

## Ymgyrchwyr yn picedu ffair arfau

Ymunodd protestwyr o Gymru â cannoedd o ymgyrchwyr yn erbyn y fasnach arfau a wrthdystiodd y tu allan i ffair arfau fwyaf Prydain erioed ym mis Medi. Ymgasglodd y protestwyr wrth brif fynedfa sioe Ryngwladol Offer Systemau Amddiffyn 1999 yn Chertsey, Lloegr. Ymwelodd mwy na 20,000, yn cynnwys swyddogion rhai o lywodraethau mwyaf gormesol y byd, â'r arddangosfa a gynhaliwyd am bedwar diwrnod yn Surrey ac yn Nociau Llundain. Fel y dywedodd Jeremy Corbyn AS:

*"Does dim pwrpas condemnio gormes ar hawliau dynol ym mhedwar ban y byd os mai ni sy'n gwerthu'r arfau mae'r lleiddiaid yn eu defnyddio."*

**heddweithredu**: er mwyn ymuno â'r Ymgyrch yn erbyn y Fasnach Arfau, neu am becyn gwybodaeth rhad ac am ddim, cysylltwch â CAAT, 11 Goodwin Street, Llundain N4 3HQ (0171) 281 0297 www.caat.demon.co.uk

## Achos llys bara nid bomiau gweithredwyr Ploughshares o Sweden

Dychwelodd Annika a Stellan am ail achos yn Preston wedi eu gweithred Ploughshares ym mis Medi 1998 ar Vengeance, y bedwaredd long-danfor Brydeinig a oedd yn cael ei hadeiladu yn Barrow in Furness ar y pryd. Ynghyd â'u cyd-ddiffynydd Ann-Britt Sternfeld, fe'u cadwyd yn y ddalfa am chwe mis cyn cael eu rhyddhau gan reithgor na allai gytuno ar ddyfarniad ar derfyn eu hachos cyntaf ym mis Mai ar gyhuddiad o "gynllwynio i achosi niwed troseddol" i Trident.

Ddydd Gwener 21ain Hydref eleni, cafodd y rheithgor hwy'n euog ar ddyfarniad o 10-2. Dedfrydodd y barnwr hwy i'r cyfnod o garchar roeddent eisoes wedi ei gwblhau, a gadael i'r erlyniaeth benderfynu beth i'w wneud am achos Ann-Britt (mae hi'n rhy sâl ar hyn o bryd i wynebu achos llys).

Yn gwbl wahanol i achos Loch Goil, cyfarwyddodd y barnwr y rheithgor mewn modd cyfyng iawn, ar sail y ffeithiau yn unig, a gwrthododd ganiatáu i arbenigwyr dystio o blaid yr amddiffyn i ddangos mai cynnal y gyfraith, nid ei thorri, a wnaethon nhw. Rydym yn falch na fydd rhaid i Annika a Stellan ddychwelyd i'r carchar, ond yn rhwystredig am na chawsant gyfle i gyflwyno eu hachos yn deg.

*George Farebrother*

**heddweithredu**: manylion pellach ar gael, yn cynnwys darnau o dystiolaeth deimladwy gan y diffynyddion. Ffoniwch Ciaron (07930) 961842 neu George Farebrother, Prosiect Llys y Byd (01323) 844269.

## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol CND Cymru

Yng nghyfarfod blynyddol mis Medi yn Llandrindod, clywodd aelodau a chynrychiolwyr am yr ymgyrchu dwys a pharhaus sy'n mynd yn ei flaen yng Nghymru, Prydain a'r byd. Trafodwyd y peryglon sy'n deillio o greu heddlu niwclear milwrol, cam y cytunir yn ffurfiol arno yn Uwch-gynhadledd y GE yn 2000, a chynnwys arfau niwclear Trident yn y polisi hwn. Penderfynwyd parhau i ymgyrchu'n rymus mewn hinsawdd wleidyddol ryngwladol lle mae gwrthdaro niwclear yn mynd yn fwyfwy tebygol. Siaradodd Rae Street, Is-gadeirydd CND Prydeinig am ei hymweliad diweddar â Siapan ac am ein lle ni o fewn y mudiad heddwch rhyngwladol. (Ceir erthygl am ei hymweliad ar tudalen 3.) Dyma'r swyddogion a etholwyd ar gyfer 1999-2000:

Cadeirydd: David Morris;

Is-Gadeiryddion: Olwen Davies, Dave Andrews, Ray Davies a Rod Stallard;

Trysorydd: Jean Bryant.

Mae Jill Stallard, yr Ysgrifennydd Cenedlaethol, wedi ymddeol ar ôl bron wyth mlynedd yn y swydd. Mae'r swydd yn dal yn wag a rhaid i CND Cymru benderfynu yn awr sut mae'n mynd i reoli ei ymgyrchu a'i weinyddiaeth.




## Ye Eisteddfod Genedlaethol: wythnos o heddwch ar Ynys Môn

Roedd y Babell Heddwch yn amlwg iawn ar Faes y Steddfod eleni. Yn sicr, fe wyddai'r cyfryngau ble roedd hi a gallent ganolbwyntio'n rhwydd ar ein rhaglen feunyddiol o wrthdystiadau yn erbyn gorfodi Cymru i gymryd rhan mewn paratoi at ryfel, ac ymdrechion byd-eang o blaid heddwch a chyfiawnder. Roedd yn garreg filltir i'r Babell Heddwch hefyd, a dygwyd ynghyd mwy nag erioed o grwpiau heddwch a chyfiawnder. Cymerodd CND Cymru y cam cyntaf drwy logi uned ddwbwl ar y Maes a bu Cyfanfyd, Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig, Gwerin y Coed, a Chymdeithas y Cymod oll wrthi'n gweithio gydag CND Cymru i gynhyrchu arddangosfa oedd yn edrych ymlaen at fyd mwy gobeithiol, heb wrthdaro.


Ar y dydd Llun, anerchodd Myriel Davies a Sian Howys gyfarfod cyhoeddus ar y pwnc "ai heddwch yw'r ateb?"

Ddydd Mawrth, perfformiodd dirprwyaeth o blant o wersylloedd ffoaduriaid Gorllewin y Sahara, canlyniad cyrch Morocco ar eu gwlad 24 mlynedd yn ôl, seremoni de ar gyfer eu gwesteion, Ieuan Wyn Jones, Aelod Cynulliad, ac Aelod Seneddol Prydeinig Ynys Môn, a Meredydd Evans, y darlledydd mawr ei barch.
Ddydd Mercher, aeth torf fawr â'r neges "Dim mwy o werthu arfau i Indonesia" a "Gwnewch Gymru'n wlad ddi-ryfel" i stondin y Cynulliad ar y Maes.

Perfformiodd plant o Gaernarfon yn y glaw ddydd Iau, a danfonwyd casgliad at Dîm Heddwch y Balcanau.

Ddydd Gwener, wraniwm hesb a'r ffaith y defnyddiwyd ef mewn arfau yn Rhyfel y Gwlff oedd thema gweithdy yn y Babell Heddwch. Roedd hi'n ddydd Hiroshima hefyd. Gweddïwyd dros ddioddefwyr rhyfel niwclear ac am fyd heb fygythiadau niwclear, byd o heddwch.

Diolch o galon i Awel Irene, a phawb arall a helpodd i wneud Eisteddfod eleni yn llwyddiant mor ysgubol.



*"Beth am ganolbwyntio ar dechnoleg am gwpwl o filoedd o flynyddoedd a wedyn, fe allwn ni ddatblygu system o werthoedd."*

# Cofleidio bywyd: safle coffa yn Greenham

Ar y 5ed o Fedi 1981 cerddodd grwp cymysg o'r enw 'Menywod dros Fywyd ar y Ddaear' y 110 o filltiroedd o Gaerdydd i Gomin Greenham i brotestio ynglyn â bygythiad arfau niwclear i'n planed. Ar ôl cyrraedd, dyma alw am ddadl deledu fyw gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn ar benderfyniad NATO i leoli taflegrau cruise o'r UD ym Mhrydain. Ni ddigwyddodd y ddadl. Aeth y menywod ddim adre.

Tyfodd Gwersyll Heddwch Menywod Greenham o hadau'r weithred uniongyrchol hon. I bawb oedd yn anfodlon ar ddull annemocrataidd y llywodraeth o benderfynu, roedd yn llwyfan i'w barn ac yn gyfle i newid pethau drwy weithredu uniongyrchol di-drais.

Wedi deunaw mlynedd o ymrwymiad di-dor i'r gwaith yma, mae menywod Greenham sydd wedi cael eu restio, eu taflu oddi ar y tir, eu hysbeilio, eu bygwth, eu beirniadu, a dioddef glaw ac oerfel ar adegau, a'u cefnogi, eu dynwared, eu cynhesu gan yr haul, eu croesawu, eu caru, a'u hewyllysio i ennill ar adegau eraill, yn symud i mewn i gyfnod newydd. Mae cynlluniau ger bron Cyngor Gorllewin Berkshire ar gyfer datblygu safle coffa hanesyddol ar safle Gwersyll Heddwch y Menywod. Mae'r menywod wedi comisynu cerflunydd, Michael Marriot i ddylunio cofeb a fydd yn cynnwys saith maen hir a cherfluniau o'r pedair elfen ddaearol.
Bydd grwp o'r menywod sydd wedi bod yn gweithio'n ddi-drais ers deunaw mlynedd i wrthwynebu arfau niwclear yn hyrwyddo'r safle. Eu gobaith yw y bydd y safle'n ehangu dylanwad y gwaith hwnnw yn y dyfodol y tu hwnt i derfynau'r gwersyll ei hun.
Gobeithir y bydd y gwaith yn dechrau yn y flwyddyn 2000. Bryd hynny, bydd y Gwersyll Heddwch yn cau i ganiatáu i'r gwaith fynd yn ei flaen.

Bydd menywod yn ymgynnull yng Ngwersyll Heddwch y Menywod ar 31ain o Ragfyr 1999 er mwyn ffarwelio â'r ganrif hon a'i cherrig milltir hanesyddol anfad o ryfeloedd, gwersylloedd marwolaeth ac arfau niwclear - ac i groesawu, â gobaith, y ganrif newydd. Bydd y safle coffa a hanesyddol nid yn unig yn nodi'r gwrthwyniad i arfau niwclear ym Mhrydain ond hefyd, gobeithio, yn ddylanwad o blaid creu byd hebddynt.
**Cronfa Safle Coffa Greenham, Cymru:** Y nod yw casglu o leiaf £1,000 yng Nghymru tuag at gost safle Greenham. Gan fod y broses o sicrhau caniatâd cynllunio ar y gweill ond heb ei gwblhau hyd yn hyn, mae'r menywod yn gofyn am addewidion yn unig, y gellir eu troi'n gyfraniadau os a phan roddir caniatâd cynllunio. Mae copïau o'r cynlluniau ar gael. Am ffurflenni ymrwymo a gwybodaeth bellach: Mary Millington (01633) 265244.

# Cofio Helen yn Greenham

Awst 5ed oedd dengmlwyddiant marwolaeth Helen Wynne Thomas o Gastell Newydd Emlyn, a drawyd gan gerbyd cludo ceffylau'r heddlu a'i lladd wrth brif glwyd cyn-wersyll USAF/RAF Comin Greenham. Roedd Mary Millington yno.

Ymgynullodd rhyw 15 ohonon ni yn y gwersyll y diwrnod hwnnw, a gadael blodau a ddanfonwyd gan Beth Junor, un o fenywod Greenham sy'n byw yng Nghaeredin, yn y fan lle bu farw Helen. Dyma gydio dwylo mewn cylch wedyn o gwmpas gardd Helen, a grewyd yn union wedi ei marwolaeth, a rhannu atgofion hapus a phositif am ei bywyd a'i gobeithion am heddwch, cyfiawnder a'r iaith Gymraeg.
Yn y darlun, o'r chwith i'r dde: Isobel Strang (gweithredydd lleol dros heddwch a'r amgylchedd); Jean Hutchinson (Brynaman a Chomin Greenham); Sarah Hipperson (Llundain a Chomin Greenham); Frances Vigay (Cernyw); Rosy Bremer (Portsmouth); Janet Thomas (mam Helen ac Ynad o Gastell Newydd Emlyn); Mary Millington (WILPF Casnewydd); Katrina Howse (Comin Greenham); Janet Turner (Sweden) a Mary Crofton (Casnewydd). Roedd Abigail Adams o swydd Efrog a modryb Helen, Iris, yn bresennol hefyd. Y gobaith yw y gellir cynnwys gardd Helen ar Gomin Greenham yn y Safle Coffa (gweler y stori).






Charlotte Turtle

## Arwerthiant Nadolig CND Cymru

### Cardiau Nadolig

detholiad o 25 o gardiau ac amlenni £3.50

### Bathodynnau

detholiad o 5 bathodyn £1

### Sticeri

detholiad o 5 sticer £1

### Posteri

stoc gyfyngedig o'r posteri a ganlyn, 50c yr un:

**White Poppy for Peace Peace? (Red Poppies)**
**Lord Mountbatten on Nuclear Weapons**
**Beware the Toys of War**
**We could learn to live in peace**
**Their right - a future without fear**
**Bread not Bombs**
**Bara nid Bomiau**
**One World**
**Make Peace not War**
**No more Hiroshimas War is not healthy for children**
**While hunger rules,**
**Peace cannot prevail**
**Trident - Britain's Self Destruct Mechanism**
**Nuclear Free Air Land and Sea**
**Gone with the Wind**

Mae'r holl brisiau'n cynnwys cludiant yn y DU ac eithrio'r posteri: ychwanegwch 50c i dalu'r post, os gwelwch yn dda (am unrhyw nifer o bosteri). Dylid gwneud sieciau'n daladwy i: *"Masnachu CND Cymru"* a'u danfon at:
Masnachu CND Cymru, d/o Jan Henderson, 72 Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe, SA8 3AN (tel 01792 - 830330)

# Pigion y newyddion

## Rhywbeth cas yn y môr: Canada

Mae llynges Canada wedi cyfaddef yn ddiweddar ei bod wedi gadael 6 tunnell fetrig o wraniwm ar wely'r môr ger arfordir Nova Scotia. Roedd wedi bod yn ymarfer saethu, gan ddefnyddio ffrwydron wraniwm hesb, yn agos i feysydd pysgota Nova Scotia. Taniwyd y ffrwydron câs-caled, a ddefnyddir i drywanu platiau dur tanciau, ychydig cyn Rhyfel y Gwlff. Mae miloedd o gasys ffrwydron bellach yn gorwedd ychydig gilometrau o lannau Halifax, Canada.

## Yr Alban

Mewn saga barhaus ynglyn â llygru De-orllewin yr Alban, mae'r fyddin wedi cyfaddef iddi golli 1,700 o fomiau yn y môr ger traethau gwyliau Luce Bay. Diflannodd y bomiau clwstwr hyn yn prawf milwrol a aeth o'i le. Gan y byddai hi mor beryglus ceisio adhawlio'r bomiau, a ddyluniwyd fel dyfais hyll i gymryd lle ffrwydron daear gwaharddedig, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn bwriadu palmantu 2 filltir sgwâr o wely'r môr. Mae ASA Galloway, Alasdair Morgan yn galw am glirio'r bomiau oddi yno, gan atgoffa'r Weinyddiaeth Amddiffyn o'r problemau gyda bomiau a 'daflwyd' i Ffos Beaufort yn y 1950au, sy nawr yn cael eu golchi i'r lan ar draethau'r Alban. Mae bomiau clwster mor beryglus fel y gallai'r dirgryniad lleia beri iddyn nhw ffrwydro.

### . . . ac ar y tir

Mae'r ffaith fod rhannau o Kirkudbright wedi eu llygru yn para i beri pryder i'r awdurdodau lleol. Bu llawer mwy o lygru gan radio-nwcleidiau o Windscale/Sellafield a meysydd saethu Eskmeals nag a gyfaddefwyd yn flaenorol. Mae'r maes tanio milworol wedi bod yn profi effeithiolrwydd wraniwm hesb ymbelydrol fel arfogaeth ac fel cydrannau ffrwydron trywanu platiau dur ers nifer o flynyddoedd.

## Tokaimura - amhosibl?


Pe bai rhywun wedi gofyn i wyddonwyr niwclear ar y 29ain o Fedi beth oedd tebygrwydd damwain niwclear fel yr un a ddigwyddodd ar Fedi'r 30ain yn Tokaimura yn Siapan, fe fydden nhw wedi dweud wrthom fod hynny'n 'amhosibl'.

Fodd bynnag, digwydd wnaeth y ddamwain niwclear waethaf er Chernobyl ac wrth i ni wylio, roedd yr holl beth yn atgof hyll o drychineb Chernobyl. Ara iawn oedd ymateb yr awdurdodau, danfonwyd deunaw gweithiwr i mewn i 'lanhau', ac mae'r rheini ymhlith y 49 a ddioddef lefelau uchel o ymbelydredd. Cafodd rhai o'r rheini a anafwyd gymaint neu fwy o ddôs na lefelau 'ground zero' yn Nagasaki a Hiroshima. Gwaharddwyd cynnyrch amaethyddol o'r ardal.

Doedd dim llawlyfrau gweithredu gan y gweithwyr. Roedd y ddamwain yn dystiolaeth bendant nad yw'r diwydiant niwclear byd-eang yn gallu gweithredu'r safonau diogelwch uchel maent yn honni eu bod yn gwneud. Mae Awdurdodau Lleol Di-niwclear Prydain yn gweld y ddamwain hon, un o gyfres o ddigwyddiadau niwclear yn Siapan yn y blynyddoedd diwethaf, fel rhybudd. Fe ddwedon nhw: *"Rhaid i ni dalu sylw i'r rhybuddion hyn a chefnu ar ailbrosesu niwclear a chynhyrchu MOX. Rhaid cau'r gwaith MOX newydd yn Sellafield sydd yn disgwyl am ganiatâd i ailgychwyn. Dylid ailnegydu cytundebau ailbrosesu niwclear rhwng Sellafield, Siapan a gwledydd eraill. Rhaid i ni wynebu'r ffaith fod y diwydiant yma yn rhy beryglus.'*

## Derby - peryglon Rolls Royce

Mae'r un broses niwclear ag yr oedd gweithwyr Tokaimura yn ei defnyddio yn digwydd yng ngwaith Rolls Royce yn Derby, Lloegr hefyd. Yn y gwaith hwn, lle gwneir adweithyddion niwclear ar gyfer llongau tanfor, cynhyrchir peledi tanwydd o wraniwm wedi ei gyfoethogi'n fawr. Datgelodd CND fod y gwaith o gymysgu'r




deunydd ar gyfer y peledi'n cael ei wneud â llaw, fel yn Tokaimura. Mae CND wedi galw am atebion brys i gwestiynau difrifol iawn. Yn Derby, does dim cynlluniau argyfwng ar gyfer y boblogaeth leol pe bai damwain, ac ni wyddys a oes unrhyw drefniadaethau i gyfyngu'r effeithiau pe ceid damwain ddifrifol. Mae mwy o wybodaeth am waith Derby ar gael gan CND Prydeinig (0171) 700 2350 neu gweler y cefndir ar wefan CND: www.cnduk.org/briefing/derbyn.htm

## Dwbwl y trwbwl yn Hanford, UDA

Mae blobyn niwclear wedi codi fel toes mewn tanc storio gwastraff ymbelydrol miliwn-galwyn yng Ngwarchodfa Niwclear Hanford, rhan o waith cynhyrchu ergydion niwclear i'r UD yn nhalaith Washingrton. Mae'r blobyn yma'n achosi pryder newydd am lygru'r amgylchedd, neu hyd yn oed ffrwydrad. Gelwir y tanc yma yn 'danc chwydu' Hanford am ei fod yn chwydu miloedd o droedfeddi ciwbig o nwy ymbelydrol i'r awyr bob rhyw dri mis. Rheolwyd hynny fel bod y chwydiadau yn llai o faint ac yn fwy cyson,. Mae hyn wedi arwain at ddatblygiad crwst sy'n tyfu ar y tanc ac sy nawr yn 10 troedfedd o drwch. Mae ofnau y bydd mwy fyth o lygredd ymbelydrol yn y dwr daear pe bai'r tanc yn gollwng.

## Tsieina - taflegrau balistig rhyng-gyfandirol newydd

Ym mis Hydref, cwblhaodd Tsieina efelychiad cyfrifiadurol llwyddiannus o broses lansio ei thaflegryn balistig rhyng-gyfandirol aml-ergyd diweddaraf, y Dongfeng-41 (DF-41). Bydd hwn yn gallu teithio 8,000 milltir a gallai gyrraedd targedau yn y rhan fwyaf o'r Unol Daleithau. Mae dadansoddwyr amddiffyn yn disgwyl y bydd y ffaith fod gan Tsieina'r DF-41 yn gorfodi UDA i adnewid ei strategaeth amddiffyn a datblygu systemau amddiffyn rhag taflegrau yn gyflymach. Gallai'r DF-41 fod yn ei le o fewn pum mlynedd os cytuna arweinyddiaeth Tsieina i fwrw ymlaen â'i ddatblygu. Bu mwyfwy o alw yn Tsieina am gyflymu datblygiad arfau blaengar er i jetiau NATO fomio Llysgenhadaeth Tsieina yn Belgrade ar y 7fed o Fai. Mae Arlywydd Tsieina, Jiang Zemin, cyfaill Tony Blair a Brenhines Lloegr, wedi annog moderneiddio'r lluoedd arfog yn gyflymach er mwyn "ennill rhyfeloedd rhanbarthol o dan amodau uwch-dechnolegol".

## Iwgoslafia - dileu sancsiynau

Nid yw'r Pwyllgor dros Heddwch yn y Balcanau yn cefnogi llywodraeth Milosevic ond y mae'n cefnogi pobl gyffredin Iwgoslafia. Mae'r Pwyllgor yn galw am ddileu'r sancsiynau anfilwrol yn erbyn Iwgoslafia, darparu cymorth dyngarol brys, ac i wladwriaethau NATO

dalu am lanhau'r amgylchedd ac ailadeiladu sailstrwythur y wlad ar ôl ei ddinistrio.

Mae'r cyfryngau wedi anwybyddu cyflwr poblogaeth gyffredin Iwgoslafia bron yn llwyr ac mae llywodraethau'r gorllewin wedi arosod sancsiynau â'r diben penodol o atal ailadeiladu'r sailstrwythur y wlad, er gwaethaf honiadau swyddogion y llywodraeth wrth ymateb i gwynion aelodau CND Cymru "nad oes gan NATO ddim cweryl gyda phobl gyffredin Iwgoslafia". Lladdwyd dwywaith mwy o bobl gyffredin na'r cyfanswm o filwyr a phlismyn a laddwyd gan fomio "manwl-gywir" NATO.

Ar ben y problemau hyn mae Iwgoslafia yn ymdopi â'r crynhoad mwyaf o ffoaduriaid yn Ewrop. Dim ond traean o filiwn o ffoaduriaid all y Groes Goch eu bwydo. Gall y tymheredd yn y gaeaf ddisgyn i -20 gradd centigrad, ac mae diffyg pwer yn effeithio'n ddifrifol ar wres i gartrefi a gofal iechyd.

Bydd y niwed amgylcheddol a achoswyd gan y bomio yn broblem barhaus yn y rhanbarth am flynyddoedd lawer. Mae Tom Dalyell AS yn galw ar wledydd NATO i lanhau gwaddol wenwynig rhyfel NATO yn erbyn pobl Iwgoslafia. Mae pa obaith bynnag a fu am gymdeithas oddefgar yn Kosovo, gyda pharch at hawliau dynol unigol pob dinesydd, wedi lleihau'n arw gyda'r bomio a'r ymladd fu wedi'r bomio yn y rhanbarth.
Amcangyfrifwyd y bydd cost y rhyfel i drethdalwyr ym Mhrydain yn £1 biliwn y flwyddyn am y deng mlynedd nesaf. Dychmygwch pe bai'r arian hwnnw wedi cael ei wario ar ddatrys anghydfod ac atal ymladd yn y blynyddoedd yn union wedi i'r gyn-Iwgoslafia chwalu.
**heddweithredu:** Cysyllter â'r Pwyllgor dros Heddwch yn y Balcanau (0171) 275 0164, d/o Alice Mahon AS, Ty'r Cyffredin, Llundain SW1A 0AA. Danfonwch £2.00 am becyn gwybodaeth. ebost: www.peaceinbalkans.freeserve.co.uk

## Chernobyl - yn ehangu o ran amser a lle

Byddai'r rhan fwyaf o bobl yn cytuno fod Chernobyl wedi digwydd amser maith yn ôl (1986) mewn lle pell iawn o Brydain (Wcraen) ac eitha pell o'r Almaen. Serch hynny, mae papur dyddiol yn yr Almaen wedi adrodd yn ddiweddar (Mis Medi 1999) am farwolaeth saith gyrrwr lori, flynyddoedd wedi'r drychineb a channoedd o filltiroedd i ffwrdd. Roedd yn hawdd darganfod y cysylltiad: roedden nhw'n gweithio i gwmni cludiant rhyngwladol wedi ei leoli yn y cyn-DDR (Dwyrain yr Almaen) a defnyddid eu loriau i gludo gwahanol ddefnyddiau yn ôl a blaen i Kiev, Gomel, Minsk a Cracow yn ogystal ag i'r Gorllewin. Ar un o'r tripiau hyn, rhoddwyd prawf ar lori a chael ei bod wedi ei llygru'n ddifrifol. Yn y man, danfonwyd pob cerbyd i mewn i gael ei ddadlygru. Bu mesurau diogelwch, wrth gwrs, ond serch hynny, mae saith o'r gyrwyr dan sylw wedi marw. Nid dim ond yn Chernbobyl y ceir dioddefwyr Cherbobyl.

*Pat Allen*

## Trident: yn fwy ac yn fwy?

Mae'r llywodraeth Lafur Newydd yn dweud wrthym ei bod yn bwriadu gweithio o blaid diarfogi niwclear rhyngwladol ac eto, ar yr un pryd, mae CND wedi darganfod fod y llywodraeth yn dweud un peth ac yn gwneud rhywbeth cwbl wahanol. Mae Alan Simpson AS wedi cyhoeddi adroddiad gydag CND yn dangos tystiolaeth gref fod Prydain wrthi'n dylunio ergydion newydd ar gyfer system taflegrau Trudent ar y cyd â'r UD a Ffrainc, o bosib. Mae'r cynlluniau cyfrinachol hyn yn costio £200 miliwn i'r trethdalwr. gyda chanlyniadau difrifol i oblygiadau Prydain o dan y cytundeb Atal Lledaenu Niwclear, heb son am ddemocratiaeth seneddol ac atebolrwydd i'r cyhoedd. Datgelodd CND hyn wedi ymchwil trylwyr i ddogfennau swyddogol yr UD, dogfennau rheoli'r Sefydliad Arfau Atomig yn Aldermaston a thrwy gwestiynau Seneddol a ofynnwyd gan ASau sy'n cefnogi'r achos. Mae'r adroddiad llawn, 'The Next Cheveline Scandal' ar gael gan CND Prydeinig, 162 Holloway Road, Llundain N7 8DQ (0171) 700 2393.

**heddweithredu**: sgrifennwch at eich AS a gofyn iddo/iddi ofyn cwestiwn ynglyn â hyn - lle cyfyngir iechyd ac addysg gan derfynau ar eu gwario, ymddengys ei fod yn fater cwbl wahanol pan ddaw hi'n gwestiwn o arfau milwrol.

## Taith Cassini drwy'r Gofod

Drwy lwc, fe hedfanodd Cassini heibio i'r ddaear ar 18 Awst 1999 yn cario 72.3 pwys (32.8kg) o blwtoniwn marwol ar ei bwrdd. Drwy lwc, ddaeth hi ddim nôl i mewn i atmosffer y ddaear ar gyflymdra o 42,000 mya, mynd ar dân a bygwth pum biliwn o bobl â 99% neu fwy o ymbelydredd o'r plwtoniwm (a allai fod wedi digwydd yn ôl Datganiad Effaith Amgylchedd NASA). Fodd bynnag, mae NASA'n bwriadu danfon mwy o longau gofod yn cludo plwtoniwm i'r gofod, fel paratoad ar gyfer datblygu llwyfannau brwydr a dyfeisiadau laser ynni-uchel a'u lleol yn y gofod. Wrth i ni lawnsio mwy a mwy o ddeunydd ymbelydrol ar longau gofod, rydym yn creu mwyfwy o gyfle i ddamweiniau ddigwydd. Mae trychinebau fel Three Mile Island, Apollo 13, Chernobyl a Tokaimura wedi dangos fod digwyddiadau annhebygol iawn yn gallu digwydd.
Mae mwy o wybodaeth ar gael gan CND Swydd Efrog: (01274) 730795, 23 Edmund Street, Bradford BD5 0BH, e-bost: cndyorks@gn.apc.org



## Ias oer

Ym mis Hydref, daliodd rhwydi llong bysgota o Sbaen a oedd yn pysgota glannau Morocco mewn llong danfor Rwsiaidd yn cario pump arf niwclear tebyg i Trident. Mae llongau tanfor Trident Prydeinig ar ddyletswydd gwylio yn y moroedd beunydd. Mae gan bob llong danfor 16 taflegryn, a gall pob taflegryn gario hyd at 8 ergyd niwclear, bob un o'r rheini â grym ffrwydrol o 100 kiloton. Mae hyn yn saith gwaith nerth ffrwydrol y bom atomig cyntaf a ollyngwyd ar Hiroshima ym 1945 a laddodd fwy na 140,000 o bobl.

## Gweithwyr Sellafield yn 'arbed amser'

Darganfuwyd fod rhai gweithwyr yng ngwaith ailbrosesu niwclear Sellafield, er mwyn 'arbed amser', wedi bod yn osgoi profion cynnal ansawdd drwy ddefnyddio dalennau data samplau blaenorol. Cafodd rhai llwythi o rodenni tanwydd MOX a gynhyrchwyd ar linell gynhyrchu 'cyfleuster arddangos' MOX bychan Sellafield, dystysgrif diogelwch pan nad oedd neb wedi rhoi prawf iddynt o gwbl. Mae Arolygaeth Gweithfeydd Niwclear y Gweithgor Iechyd a Diogelwch wedi cadarnhau iddyn nhw gael gwybod am 'dramgwyddo'r drefniadaeth er mesur maint peledi MOX i'w hallforio', Mae tîm arolygu o 15 eisoes yn Sellafield yn gwneud archwiliad mawr o'r safle yn sgîl cynnydd yn nifer y damweiniau yn Sellafield yn gynharach eleni. Mae BNFL wedi cyfaddef er hynny i 22 o ddalennau data rheolaeth ansawdd ffug. Mae Cumbrians Opposed to a Radioactive Environment (CORE) yn ymgyrchu i atal gollwng unrhyw beth o Sellafield, a gellir cysylltu â nhw yn 98 Church Street, Barrow, Cumbria LA 14 2HJ (01229) 833851, ebost: info@core.furness.co.uk

## Y2K: daw'r mileniwm i'n hambygio

Mae llawer o ansicrwydd a pheryglon yn gysylltiedigâ Y2K a dylai gweithredwyr gwrth-niwclear a'r rheini sy'n poeni am hyn ymbaratoi. Pe bai'r sefyllfa waethaf yn codi, gallai systemau arfau niwclear gamweithredu a/neu adweithyddion niwclear doddi. Mae'r ddau beth yn bosibl, er bod y tebygrwydd yn llawer llai yn sgîl sefydlu "Canolfan Sadrwydd Strategol y Flwyddyn 2000" yn Colorado Springs, UDA. Bydd y Ganolfan hon yn cael ei rhedeg gan 18-20 Cyrnol Rwsiaidd a'u cymheiriaid o'r UD i sicrhau cyfathrebu agored a chyfnewid gwybodaeth pe bai arfau'n cael eu lansio'n ddamweindiol. I wrthbwyso hynny, mae'n destun pryder nad yw 6 o'r 7 llinell boeth telethrebu rhwng Arlywyddion yr UD a Rwsia yn cydymffurfio â safonau Y2K.

Mae Prydain eioes wedi newid ei 'rhybudd i danio' o funudau i ddyddiau. Byddai'n llawer mwy effeithiol pe na bai dim o arfau niwclear y byd mewn cyflwr 'tanio ar amrantiad' am y cyfnod hwn, a bod ergydion niwclear yn cael eu datgysylltu o'r taflegrau sydd i fod i'w cludo, ond does dim argoel o symud i'r cyfeiriad hwn, hyd yn oed ar yr unfed awr ar ddeg.


Mae peryglon cynhenid technoleg niwclear, ynghyd â'r posibilrwydd y gall Y2K achosi methiannau arwain at gadwyn o ddigwyddiadau tebyg i'r hyn a ddigwyddodd fis Rhagfyr diwethaf yng ngorsaf ynni niwclear Hunterston yn yr Alban. Gallai'r canlyniadau fod yn drychinebus. Nid yw cadw arfau niwclear mewn cyflwr 'tanio ar amrantiad' yn gwneud unrhyw genedl yn fwy diogel; yn hytrach, mae'n cynyddu ansicrwydd. Y llynedd, cariodd Cynulliad Cyffredinol yr CU drwy fwyafrif llethol benderfyniad yn galw ar wladwriaethau ag arfau niwclear i beidio â chadw eu harfau yn y cyflwr hwn. Roedd yn gyngor doeth. Mae gan yr UD a Rwsia rhyngddynt ryw 5,000 o arfau niwclear strategol y gellid eu tanio o fewn cyfnod o 15-30 munud.

**heddweithredu**: Dyw hi ddim yn rhyw hwyr i sgrifennu at eich AS, Aelod Cynulliad (mae a wnelo hyn â diogelwch Cymru, yn sicr) a/neu'r Prif Weinidog yn mynnu: 1. na ddylai dim systemau arfau fod mewn cyflwr parod i 'danio ar amrantiad' ac y dylid datgysylltu ergydion niwclear o'r taflegrau sydd i fod i'w cludo; 2. cau adweithyddion niwclear i lawr o dan reolaeth; 3.darparu generaduron cefnogi ychwanegol ym mhob gorsaf niwclear gyda digon o danwydd ar gyfer y sefyllfa waethaf y gellid ei dychmygu 4.moratoriwm byd-eang ar gludo deunydd niwclear; 5.darparu cynlluniau argyfwng ar gyfer pob cymuned.

## NATO ac Ewrop

Ym 1919, ar ôl erchylltra'r Rhyfel Byd Cyntaf, disgrifiodd John Maynard Keynes weledigaeth ar gyfer Ewrop lle byddai masnach rydd yn gweithredu fel grym o blaid heddwch, system economaidd *'... y byddai gan bawb hawl i berthyn iddi ac na fyddai'n rhoi breintiau arbennig i neb ... yn gwbl rydd o wrthwynebiadau'r breintiedig a chynlluniau imperialaidd i eithrio a gwahaniaethu yn erbyn pobl.'* Byddai llawer yn awr yn dadlau â damcaniaeth Keynes, yn enwedig y gosodiad fod masnach rydd yn rym o blaid heddwch ond mae'n glir nad yw George Robertson, y cyn-Werinidog Amddiffyn ac arweinydd newydd NATO, hyd yn oed yn gweld 'heddwch' fel rhywbeth i'w chwennych.

Mae NATO wrthi'n trafod gwella arfau, logisteg a chyfathrebu, gyda'r nod o gynyddu ei allu milwrol. Mae George Robertson wedi galw ar aelodau'r UE i ymbaratoi am swyddogaeth filwrol fwy - ledled y byd. Mae aelodau Ewropeaidd NATO eisoes yn gwario rhyw £102 biliwn y flwyddyn ar amddiffyn. Disgwylir y bydd gwneuthurwyr arfau Americanaidd, fel Boeing a Lockheed Martin, yn elwa ar unryw




welliannau i'w systemau arfau gan wledydd Ewrop. Nid Ewrop heddychlon mo hon, ond Ewrop sydd wrthi'n paratoi beunydd am ryfel ac arllwys gwaed, camddefnyddio adnoddau, a llygredd.

## CND yn datgelu'r gwir am Aldermaston

Mae dogfennau a dderbyniodd CND yn gyfrinachol yn datgelu catalog arswydus o drychinebau yn SAAau Aldermaston a Burghfield yn ystod y 10 mis diwethaf. Dim ond lwc oedd hi na fu damwain niwclear ddifrifol ar y safleoedd hyn lle mae ergydion niwclear Trident yn cael eu cynhyrchu a'u hadnewyddu. Mae CND yn galw am gau'r SAAau; ymchwiliad llawn ac annibynnol i Aldermaston; i'r llywodraeth fynd yn gyfrifol am y sefydliadau eto (fe'u rheolir ar hyn o bryd gan gonsortiwm preifat, Hunting Brae); gwneud y rheolwyr yn wirioneddol agored ac atebol; gweithredu argymhellion a wnaed mewn adroddiadau iechyd a diogelwch blaenorol; cau pibell Pangbourne sy'n gollwng defnyddiau ymbelydrol i mewn i afon Tafwys; cynhyrchu rhaglen bum-mlynedd i 'lanhau'r llygredd ar y safle; cychwyn 'cyfleusterau lleihau maint a thrin gwastraff solet' ar unwaith, a chynhyrchu strategaeth storio gwastraff niwclear realistig yn y 12 mis nesaf ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

Yn y cyfamser, mae hyn oll yn bygwth y gweithwyr, bywydau a iechyd y gymuned leol a'i hamgylchedd am genedlaethau i ddod.

**heddweithredu**: Mae CND wedi cyhoeddi 'Aldermaston Behind Closed Doors' ac mae rhestr lawn o ddamweiniau ar gael ar wefan CND ar http://www.cnduk.org/briefing/awesri.htm Gellir cysylltu ag CND ar: (0171) 700 2393, 162 Holloway Road, Llundain N7 8DQ.

## Gwrthryfelwyr o Irac i dderbyn hyfforddiant yn yr UD

Mewn cam sy'n ein hatgoffa o'r gefnogaeth a roddodd yr UD i Blaid Ba'ath Saddam Hussein yn y 1980-au, gwahoddwyd gwrthryfelwyr o Irac i gymryd rhan mewn cwrs hyfforddi ar gyfer milwyr gorau Awyrlu'r UD. Mae'r cyfranogwyr yn cynnwys dau gyn-swyddog ym myddin Irac. Mae'r UD wrthi'n cyflenwi'r prif grwpiau sy'n gwrthwynebu ag offer honedig anfilwrol gwerth $2.2 miliwn fel cam cyntaf mewn rhaglen gymorth werth $97 miliwn. Mae gan yr Unol Daleithau hanes maith o gynorthwyo gwrthryfelwyr ddigon i achosi trwbl i wrthwynebwyr ond heb roi digon o gefnogaeth iddyn nhw fedru ennill a herio'r UD ei hun. *(Ffynhonnell: New York Times)*

# Chwalwyr sancsiynau o Gymru yn mentro carchar drwy fynd â thedi bêr Mark Thomas i Irac

Rhyfel ar gyflymdra araf yw sancsiynau, ond mae un gwahaniaeth: byddinoedd y gelyn sy'n dioddef leiaf. Mae unbeniaid yn gallu adeiladu muriau i'w hamddiffyn rhag y caledi; y gwannaf sy'n dioddef yn uniongyrchol. Mae honni nad yw Prydain yn targedu'r gwan a'r diamddiffyn yn siarad gwag tra bod strategaeth plant-laddol sancsiynau yn dal mewn grym.

Aeth dau aelod o CND a'r grwp Lleisiau yn yr Anialwch ar daith dorri-sancsiynau i Orac. Aethant â'r tedi bêr anferth Geoff, a welwyd ar raglen S4C, 'The Mark Thomas Product' yn ddiweddar, gyda nhw, ynghyd â defnyddiau addysgol a meddygol. Wnaeth Ray Davies, Is-gadeirydd CND Cymru, a Chynghorydd Llafur yng Nghaerffili, a Dave Rolstone, adeiladydd cychod o'r Efailwen, ddim cais am drwyddedau allforio, a gallent dderbyn dedfryd o garchar am bum mlynedd os cânt eu herlyn. Roedd David Rolstone wedi torri'r sancsiynau yn gynharach eleni, gan herio'r llywodraeth Brydeinig i'w restio a gorfod cyfiawnhau ei gweithredoedd ger bron rheithgor.

Bob mis yn Irac, yn ôl ffigurau'r CU ei hun, mae mwy na 4,000 o blant yn marw oherwydd sancsiynau'r CU. Anwybyddwyd protestiadau gan grwpiau heddwch fel Lleisiau yn yr Anialwch. Ymddiswyddodd Denis Halliday, cydgysylltydd gyda'r CU yn Irac, fel protest gan ddatgan, *"Does neb eisie cydnabod faint o niwed anfilwrol a wnaed, y bwyd oer a'r cyflenwadau moddion a ddinistriwyd, y cyflenwad pwer ... Wyddwn i ddim gymaint oedd ein rhan ni yn y dioddefaint."* Mae cynrychiolwyr blaenorol o Lleisiau yn yr Anialwch o Brydain wedi cael eu restio a bygwth eu herlyn. Cafodd chwaer-fudiad y grwp, Lleisiau yn yr Anialwch UD, ddirwy weinyddol o $163,000. Dyma beth o hanes Ray am y daith.

**heddweithredu:** Mae CND Cymru yn poeni am ganlyniadau dyngarol sancsiynau ar Irac, a'r oblygiadau i heddwch a chyfiawnder. Dydyn ni ddim yn cefnogi llywodraeth Saddam Hussein a dydyn ni ddim yn erbyn sancsiynau milwrol. I gysylltu â Lleisiau yn yr Anialwch, ffoniwch 0181 444 1605, neu'r ddyfais alw 01523 746 462, 12 Trinity Road, Llundain N2 8JJ; yr Ymgyrch yn erbyn Sancsiynau ar Irac: CASI, King's College, Caergrawnt CB2 1ST, ffacs: 01223 335 219 neu ffôn: 01468 056 984. Yng Nghaerdydd, cysylltwch â Rabab Ghazoul (01222) 228549/405949.

# Torri Sancsiynau, canu a thystiolaethu yn Irac

Ers misoedd bûm yn poeni am ystadegau Mudiad Iechyd y Byd am y cynnydd iawn mewn anffurfiadau geni, cancrau a marwolaethau plant yn Irac er Rhyfel y Gwlff. Penderfynais gan hynny ymweld ag Irac a mynd â moddion, offer a chyfnodolion meddygol gyda mi. Fy nghyd-dorrwr sancsiynau oedd Dave Rolstone, o'r Efailwen, sir Benfro oedd wedi bod yno yn gynharcach eleni. Y diwrnod cyn i ni hedfan i Irac, drwy Wlad Iorddonen, aethom â llythyr i Tony Blair yn ei hysbysu o'n bwriad o dorri sancsiynau drwy fynd â'r cyflenwaday hyn.

## Warws bron yn wag

Yng Ngwlad Iorddonen, treuliasom ddau ddiwrnod yn ymgeisio am visas yn llysgenhadaeth Irac. Ymadawsom ag Amman o'r diwedd ar fws, ar daith o bron 600 milltir, drwy'r anialwch yn bennaf, gan gyrraedd Baghdad 20 awr yn ddiweddarach. Aethom i ymweld a gweithiwr cymorth o'r Eidal yn gyntaf, a oedd yn gweithio mewn warws, mawr, gwag bron gyda phentwr pitw o lyfrau a phentwr hyd yn oed mwy pitw o hen foddion. Fe'm llwythwyd ni a'r llyfrau i gefn hen lori agored - a'n gyrru i ymweld â thair ysgol mewn rhan dlawd o Baghdad. Canodd y plant gân o groeso i ni a phan glywsant fy mod i o Gymru, gofynnwyd i mi ganu. Roeddwn dan deimlad a'r cwbl y gallwn i ganu oedd 'Gweddi Eli Jenkins' Dylan Thomas. Roedd distawrwydd llwyr wrth i mi ganu gyda phawb yn dal dwylo. Doedd dim llygad sych i'w gweld wrth i ni ffarwelio.

## Tiwb plastig i achub bywyd baban

Dranoeth, aethom i ymweld â Chilgant Coch Irac a chwrdd â'r Llywydd, Dr Alwash. Tra'r oeddem yno, gallasom roi cymorth brys i feddyg gyda baban deuddydd oed a aned heb daflod ac a oedd mewn perygl o farw am na ellid ei bwydo. Ymhlith yr offer a ddaethom gyda ni roedd darn syml o diwben blastig a chyfarpar. Fe gostiodd yr un eitem fach honno o offer bywyd-achubol 95 ceiniog i ni ym Mhrydain.

## Basra - plant ag anffurfiadau a diffyg maeth

Aethom i'r de i Basra ac i mewn i'r Ardal Dim Hedfan. Roedd awyrennau'r UD yn hedfan dros yr ardal bob dydd gyda gynnau Iraci yn tanio arnynt. Aethom i ymweld ag Archesgob Basra sy'n rhoi cynhalieth ysbrydol i'w braidd bob dydd ac sy'n dosbarthu bwyd a moddion i dlodion o bob crefydd. Roedd y prif waith dwr a charthffosiaeth yn gweithio i hanner ei allu oherwydd prinder rhannau.

Yn yr ysbyty dwedodd y rheolwr wrthym fod llawer o blant wedi eu geni ag anffurfiadau difrifol oherwydd yr wraniwm hesb yn y 'bomiau clyfar' bondigrybwyll a olyngwyd yn ystod Rhyfel y Gwlff. Plant heb ymennydd, â dim llygaid, â dau ben. Mae newyn a marwolaethau plant ar gynnydd. Dim ond un ambiwlans oedd yno yn lle'r pump oedd eu hangen i ddod â mamau beichiog i'r ysbyty o ardal eang. Allai neb fforddio mathau eraill o gludiant. Roedd ymweld â'r wardiau yn dorcalonnus. Allai dim byd fod wedi ein paratoi am yr hyn welson ni: baban dwy wythnos oed heb drwyn, â hanner ceg a llygaid mawr; roedd eraill yn dioddef mor ddifrifol o ddiffyg maeth nes y gallwn eu dal yng nghledr fy llaw. Roedd mamau ifanc gyda'u baban cyntaf yn crio ac yn ceisio'u gorau glas i gadw clêr heintus oddi ar eu plant oedd yn marw.

Mewn canolfan i bobl ddigartref, rhuthrodd llu o blant troednoeth gan mwyaf at ein bws bychan. Rhoesom beli troed a phensiliau iddyn nhw ond cyn hir doedd dim ar ôl. Felly fe grawciais fy ffordd drwy 'Calon Lân' - a chael cymeradwyaeth fyddarol!

## Cynhesrwydd a chyfeillgarwch

Pan ddychwelson ni i Baghdad, fe aethon ni i ymweld â Mudiad Iechyd y Byd (WHO) a dangos i'r prif swyddog ohebiaeth gyda 10 Downing Street oedd yn beio cyflwr pobl Irac ar lywodraeth Irac am gadw bwyd a moddion yn ôl. Gwadodd yntau hynny yn blwmp ac yn blaen, gan ddweud mai gwaith y WHO yw monitro'r holl fwyd a chyffuriau sy'n dod i mewn i Irac - a bod yr holl fwyd wedi cael ei ddosbarthu ymhlith y boblogaeth yn unol â safonau uchel y WHO. Dywedodd hefyd fod y problemau sy'n effeithio ar bobl Irac i'w priodoli'n uniongyrchol i Ryfel y Gwlff ac i sancsiynau.

Dyma ffarwelio â phobl Irac o'r diwedd, pobl a ddylai fod yn ein casáu, ond a ddangosodd gynhesrwydd a chyfeillgarwch tuag atom ni yn lle hynny.

*Ray Davies*



*Ray a Dave yn Ysgol Baghdad*

# Dyddiadau Dyddiadur

**Rhagfyr 6ed 10am - 3.30 pm Y Deml Heddwch, Caerdydd Lansio Degawd Heddwch heb Drais y CU.** Croeso i bawb - yn enwedig grwpiau ysgolion. Cynhelir y digwyddiad hwn er cof am George M. Ll. Davies.

**Rhagfyr 6ed 7.30 pm Y Deml Heddwch, Caerdydd Rhan o'r sioe gerdd Gymraeg "Conshi" gan Emyr Edwards.** Cwmni Waenddewi, Cyfarwyddydd Alma Roberts Am wybodaeth am y ddau ddigwyddiad, cysyllter ag Alma Roberts (01269)870488 neu (01558)823272

**Rhagfyr 31st Greenham - Parti !** (gweler stori)

**Ionawr 1af 2000 Adduned Blwyddyn Newydd: gweithio dros heddwch a chyfiawnder!**

**Ionawr 8fed 10.30 am - 3.30pm Y Deml Heddwch, Caerdydd "Grwandawiad y Bobl ar Ddiarfogi",** trefnwyd gan Gymdeithas y Cenhedloedd Unedig Cymru. Siaradwyr a gweithdai - agored i bawb. Diwrnod o ddysgu a chymryd rhan. Mwy o wybodaeth gan Stephen Thomas (029 20) 228 549


**Mawrth 12 11.00am - 4.00pm Cyngor CND Cymru, Ty Cwrdd y Cyfeillion, Temple Street, Llandrindod.** Croeso i aelodau a chynrychiolwyr.

**Chwefror 11eg -13ed penwythnos gweithredu Trident Ploughshares 2000: Coulport.** Cysyllter a David Mackenzie (01324) 880744

**Chwefror 23ain 18fed Penblwydd Datgan fod Cymru'n Wlad Ddi-niwclear.**

**Mai 2000 Gweithredu Trident Ploughshares 2000 yn SAA Aldermaston AWE i gefnogi'r Gyfraith Ryngwladol.**
Cysyllter a TP2000 (gweler uchod) neu www.gn.apc.org/tp2000

## Cymru-gweithio dros Heddwch a Chyfiawnder i Bawb!




Mae dawr y rhifyn hwn wedi ei seilio ar boster a gyflwynwyd i bob aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol wrth iddynt fynd iddo am y tro cyntaf ym mis Mai. Fe'i dyluniwyd gan Wendy Lewis gyda chymorth hollbwysig gan Tad Davies (6 oed). Mae mewn lliw llawn, mae'n hardd dros ben, ac rydych yn lwcus oherwydd gellwch brynu'r eitem casglydd a'r gwaith celf yma gan CND Cymru am £2.00 (£2.75 yn cynnwys cludiant).

## Carwn ymuno ag CND Cymru

Enw

Cyfeiriad

Côd post

Teleffon

Amgaeaf siec/archeb bost am £ yn daladwy i CND Cymru

Pâr cyflogedig £16; oedolion £12, Digyflog, pensiynwyr, ieuenctid: £4

Dychweler at: Aelodaeth CND Cymru, 72 Heol Gwyn, Alltwen, Pontardawe SA8 8AN

## CYSYLLTIADAU CND CYMRU

Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri SA20 0LR 01550) 750260

**CADEIRYDD**
David Morris (01792) 643542
**IS-GADEIRYDDION**
**Gogledd Cymru:**
Dave Andrews (01978) 310491
**Y Canolbarth:**
Olwen Davies (01970) 611994
Rod Stallard (01550) 750260
**De Cymru:**
Ray Davies (01222) 889514
**GOLYGYDD HEDDWCH**
Jill Stallard (gweler uchod)

**Mwy o wybodaeth, syniadau neu gymorth i'w gynnig? Cysylltwch â'ch Is-gadeirydd CND agosaf, da chi, neu'r Ysgrifennydd Cenedlaethol**

**AELODAETH**
Brian Jones, 72 Heol Gwyn, Alltwen, Pontardawe SA8 8AN (01792) 830330
**AELODAU CYSYLLTIOL**
Rhoda Jones (01766) 762739
**MASNACHU**
Jan Henderson (01792) 830330
**TRYSORYDD**
Jean Bryant, 16 Ty'n y Cymer Close, Y Porth, Y Rhondda CF39 9DE
**GWEITHWRAIG SENEDDOL**
Sarah Isaacs, Bridgend Cottage, Llangamarch LD4 4ED (01591) 620561
**Am gwyno am awyrennau milwrol yn hedfan yn isel? Galwch y Weinyddiaeth Amddiffyn ar (0171) 218 6020**



*"os ydych'n methwl bod hwn yn wael, dylech chi gweld beth mae nhw'n gwneud iddi hunain."*

**heddwch** yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru).
Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu o fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.
Croeso i sylwadau, llythyron ac erthyglau - cysylltwch â'r golygydd, os g., yn dda


Golygydd: Jill Stallard (01550) 750260 (heddwch@fdn.co.uk)
Cyfieithydd: Siân Edwards (sian@derwen.demon.co.uk)
Cysodi ac Argraffu: Redkite Print (01591) 610844 (Redkite@onyxnet.co.uk)
Pacio gan wirfoddolwyr yng Nghaerdydd - i ymuno â'r hapus dyrfa hon, un prynhawn bob rhyw 2-3 mis, cysyllter â Brian Jones (01792) 830330